# y Dinesydd

LANSIO DINESYDD 2000
TOCYNNAU CÔR Y BYD YN WOBRAU

TUDALEN 7

CYLCHGRAWN NEWYDDION CYMRAEG CAERDYDD RHIF 183 8 MAI 1992 65c


# Papur nos Caerdydd i gyhoeddi'n Gymraeg

**Cyhoeddodd papur newydd mwyaf Cymru eu bwriad i gychwyn cyhoeddi yn Gymraeg.**

Yn ôl Pat Pilton, golygydd y South Wales Echo, mae'r fenter newydd i gychwyn ddydd Sadwrn 9 Mai, ac yn tanlinellu'r newid yn agwedd y papur tuag at y Gymraeg – agwedd a fu ar adegau yn elyniaethus tuag at yr iaith.

Ers cymryd yr awenau fel golygydd flwyddyn yn ôl bu Pat Pilton yn trafod y posibiliadau o gyflwyno'r Gymraeg i'r Echo gyda Bwrdd yr Iaith ac Acen. Dywedodd wrth y Dinesydd bod y Gymraeg yn cael ei siarad yn helaeth yn nhalgylch y papur, a'i bod yn fwriad gan yr Echo adlewyrchu hyn.

I gychwyn bydd y papur yn cyhoeddi un dudalen liw o Gymraeg yr wythnos yn rhifyn dydd Sadwrn yr Echo, wedi ei anelu'n fwyaf penodol at ddysgwyr yn seiliedig ar gyrsiau dysgu Acen a'r gyfres deledu boblogaidd *Now You're Talking*.

Dywedodd Pat Pilton "bydd y dudalen yn cyflwyno sbri i mewn i ddysgu'r iaith. Ers i mi dod i Gymru rydw i wedi ymddiddori ynddi."

"Bydd y dudalen yn cynnwys colofn Gymraeg ddigri gan Bruce Siôn a fydd yn edrych ar ddigwyddiadau'r wythnos, calendr digwyddiadau, cwestiynau am yr iaith, cystadleuthau a chartŵn".

Ychwanegodd Elen Rhys o Acen mai'r bwriad yw "lladd y syniad bod y Gymraeg yn boring a di-liw, a chreu ymwybyddiaeth fel bod pawb yn gallu ymuno. Y bwriad yw osgoi unrhyw beth sych a chanolbwyntio ar ddarnau poblogaidd".

Pwrpas yr ymarfer yn benodol yw codi ymwybyddiaeth o'r iaith ymhlith y boblogaeth ddi-Gymraeg yn y de-ddwyrain. Ni fydd y math o erthyglau Cymraeg a gyhoeddir yn y Western Mail yn cael eu hatgynhyrchu. "Mae cynulleidfa yr Echo – papur mwya poblogaidd trwch darllenwyr Caerdydd – yn debyg iawn i gynulleidfa Acen" ategodd Elin Rhys.

Er hynny, gobeithia Pat Pilton y bydd y cynnwys yn bodloni sbectrwm eang o ddarllenwyr, ac yn denu darllenwyr ifanc a meithrin dysgwyr newydd.

Acen fydd yn cydlynu cynnwys y dudalen Gymraeg gyda chymorth Huw Owen o Fwrdd yr Iaith, sy'n crynhoi manylion digwyddiadau ac yn addasu stribedi cartŵn yr Echo i'r Gymraeg.

Anelir y dudalen i gychwyn at ddysgwyr sy'n dechrau dysgu Cymraeg yn seiliedig ar *Now You're Talking*, gyda darnau hefyd mewn Cymraeg syml ar gyfer dysgwyr da a siaradwyr Cymraeg sydd ddim wedi arfer â darllen yr iaith.

Pwyseisiodd Elen Rhys na fyddai'r cynnwys yn nawddoglyd, gan obeithio y bydd siaradwyr Cymraeg yn cefnogi'r fenter. Mi fyddai er hynny yn gyffrous, ond heb fynd dros ben llestri. Ar ôl gweld a oes diddordeb i'r dudalen bydd modd datblygu'r syniad ymhellach a chynnwys erthyglau poblogaidd ar gyfer trwch y darllenwyr, ac ehangu nifer y cyfranwyr maes o law.

Cafwyd nawdd o rai miloedd gan Dŵr Cymru i gychwyn y dudalen, a gyhoeddir yn rhifyn dydd Sadwrn yr Echo er mwyn gallu manteisio o'r cychwyn ar wasg liw y papur.

"Unwaith y down dros yr anawsterau presennol o gyhoeddi'n lliw yn ein rhifynnau yn ystod yr wythnos , rwy'n gobeithio y bydd modd cyhoeddi'n Gymraeg yn y rhifynnau hynny" cadarnhaodd Pat Pilton.



• Bob Squire fydd o'r rhai fwen ymlaen yn gwerthu'r Gymraeg gyda'r Echo gan ... Morgan

# Rhialtwch Rhuthun ar eich rhiniog




## gyda Hywel a Caryl yn lliwio'r lluniau gorau o 'Steddfod Bro Glyndŵr

**Holl fwrlwm a chyffro prifwyl y plant bob dydd drwy'r dydd yn fyw o Faes yr Urdd ar BBC Radio Cymru**

BBC RADIO CYMRU 92-96 FM

**Cysylltwch â ni â'ch newyddion: 0222 578772**

ADDYSG GYMRAEG

# "SNOB VALUE" ADDYSG GYMRAEG

**CYHOEDDWYD** adroddiad newydd yng Nghylchgrawn Addysg Cymru sy'n disgrifio addysg Gymraeg fel addysg elitaidd.

Mae'r adroddiad gan Cefin Campbell ac Anthony Packer yn ffrwyth ymchwil i'r rhesymau pam fo rhieni di-Gymraeg ym Mhenarth a Dinas Powys yn mynnu rhoi addysg Gymraeg i'w plant.

Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar grwpiau o rieni sydd â'u plant mewn ysgolion meithrin Cymraeg, ac yn awgrymu bod mwy o bwys yn cael ei roi ar fanteision cymdeithasol addysg Gymraeg – "snob value" – yn hytrach na manteision iaith i rai.

Roedd y teimladau cryfaf o blaid addysg Gymraeg wedi eu seilio ar werthoedd ethnig a'r awydd i drysori treftadaeth Cymru gan y genhedlaeth mewn teuluoedd i beidio â siarad yr iaith.

Cadarnhawyd bod enw da'r ysgolion Cymraeg yn bwysig i rieni, wrth ddethol ysgol, a'r farn bod safon yr addysg yn uwch. Nid oedd y rhan fwyaf o rieni wedi ystyried ar unrhyw adeg anfon eu plant i ysgolion Saesneg, a'u bod yn fodlon aberthu'r Saesneg fel cyfrwng addysg er mwyn sicrhau bod eu plant yn hapus yn yr ysgol.

Yn ôl yr adroddiad mae'r agwedd hon yn allweddol gan fod apêl yr ysgolion Cymraeg wedi ei seilio ar yr anniddigrwydd ynghylch safon addysg Saesneg.

Gwelwyd manteision dwyieithrwydd, a hynny mewn cyddestun Ewropeaidd. Mae'r siawns o gael swydd dda hefyd yn ffactor ddylanwadol, er bod rhai perthnasau a chymdogion wedi ceisio darbwyllo rhai rhieni y byddai addysg Gymraeg yn andwyol i'w plant. "They reckon my child will be a dunce if he carries on with his Welsh" meddai un rhiant.

Er hynny, wrth ystyried addysg uwchradd, dangosodd nifer o rieni



• Cefin Campbell, ar ei ymchwiliad. Llun South Wales Echo

eu hamharodrwydd i anfon eu plant ar siwrne o ddeng milltir i Ysgol Glantaf. Disgrifiodd un fam a gafodd addysg uwchradd Gymraeg ei hun ei hanfodlonrwydd am fod yr ysgol yn "...very narrow-minded and politically aggressively anti-English...I don't like the very narrow intake of white kids and a narrow cultural background separated from the real community. I've seen children from the Ysgol Gymraeg who are 'know-it-alls' and I've felt belittled when talking to them".

Y FRO

## SEFYDLU IS-BWYLLGOR DWYIEITHRWYDD

**PENDERFYNODD** cynghorwyr Bro Morgannwg sefydlu is-bwyllgor dwyieithrwydd i'r pwyllgor cyllid a phwrpasau cyffredinol.

Yn ôl y Cynghorydd Janie Jones bu brwydro caled dros y flwyddyn ddiwethaf i sefydlu pwyllgor dwyieithrwydd llawn i'r cyngor.

Bwriad yr is-bwyllgor bydd helpu i hybu ymwybyddiaeth o Gymreicdod y cyngor. Dywedodd "Mae aelodau Plaid Cymru y cyngor yn naturiol gefnogol, a rydym hefyd yn cael cefnogaeth gan garfannau iau y Blaid Lafur, er bod rhai cynghorwyr Llafur hyn yn ei chael hi'n anodd i weld perthnasedd y Gymraeg i'r Fro".

GWYNLLYW

## CODI ARIAN

**CODODD** yr ornest bysgota a gynhaliwyd ar Lyn Brithyll Llanbedr yng Ngwynllyw £3500 tuag at ymchwil lewcemia. Trefnwyd yr ornest gan Risiart Williams yn S4C.

DERWEN I IOLO

## COFNODI DEGAWD DDWY FLYNEDD YN DDIWEDDAR



• O'r chwith i'r dde: Cyng Vick Eveley, Dirpwy Faer; Cyng Terry Arnold; Hilary Hanmer, CEM; Owain Crimmins; Chris Sanders, Pellfotowes

**DATHLWYD PENBLWYDD** ysgol Iolo Morgannwg yn y Bontfaen yn ddeng oed drwy blannu coeden – ddwy flynedd yn ddiweddar – ym mharc y dre. Methwyd â phlannu'r goeden yng nghynt am nad oedd y cyngor wedi rhoi eu caniatad.

Owain Crimmins, disgybl hyna'r ysgol dyrchodd y dywarchen, gyda 145 o ddisgyblion yr ysgol yn ei annog 'mlaen, ynghyd â chynrychiolwyr o'r gymdeithas rhieni ac athrawon, y cynghorydd Vick Eveley y Dirprwy Faer, a'r cynghorydd Terry Arnold.

CLWB IFOR BACH

## GALW AM SWYDDOG CYD I GAERDYDD

**ERBYN DIWEDD DYDD** ar 27 Mehefin bydd miloedd o ddysgwyr blinedig drwy Gymru gyfan. Dyma ddiwrnod y teithiau cerdded noddedig i godi arian i gylchoedd dysgwyr a Nant Gwrtheyrn a drefnir gan Helen Prosser.

Mewn cyfarfod arbennig yng Nghlwb Ifor Bach ar 30 Ebrill galwodd mudiadau'r dysgwyr yng Nghaerdydd – Canolfan y Dysgwyr, Cymdeithas yr Iaith, y Mudiad Meithrin, CYD, a'r Clwb – i benodi swyddog CYD i'r brifddinas.

Gan fod y Swyddfa Gymreig wedi gwrthod hyd yma i roi arian i gynnal swyddog o'r fath yng Nghaerdydd, cafwyd cefnogaeth i awgrym Helen Prosser y byddai'r arian a gesglir yng Nghaerdydd yn mynd tuag at gyflogi person i hybu'r gwaith o gymathu'r dysgwyr â'r siaradwyr Cymraeg yn y ddinas.

Clywodd y cyfarfod am broblemau cyn-ddysgwyr wrth geisio croesi'r bont a dod yn rhan o gymdeithas Gymraeg y ddinas. Trafodwyd hefyd yr her o gadw'r Gymraeg ar dafodau disgyblion Glantaf ar ôl iddynt adael.

Tra bod ardaloedd eraill Cymru yn cael arian cyhoeddus i hybu'r defnydd o'r Gymraeg, ymdrech gwirfoddolwyr a ddaw â'r maen i'r wal yng Nghaerdydd. Am fanylion am y daith, cysylltwch â Helen Prosser, ffôn 555446.

• *Cynhelir noson gyda Bwchadanas yng Nghlwb Ifor Bach ar 13 Mehefin, a Dafydd Iwan ar 3 Gorffennaf.*

*CYMDEITHASAU CLWB IFOR BACH*

*Clwb Criced Ifor Bach: Robin Huws, ffôn 493808*

*Clwb Peldroed Inter-Ifor: Siân Lewis, ffôn 373142*

*Cymdeithas Ieuenctid Hŷn: Elari Twynog, ffôn 619934*

*Dawnswyr Twrch Trwyth: Nerys Curig, ffôn 554763*

JIWBILI

## GWEFR DRYDANOL Y CHWEDEGAU

**ATGYFODWYD** y 60au yn y Clwb Trydan ar 10 Ebrill, mewn noson lwyddiannus i ddathlu jiwbili Canolfan yr Urdd yn 25 oed.

Roedd stafell eang y clwb yn llawn o drwsusau ffîêr a sgertiau mini gyda Caryl Parry Jones a'i chyfeillion, Dewi Pws a Clive Harpwood yn dwyn atgofion i gof gyda chaneuon fel *Lleucu Llwyd* a *Dyn ni ddim yn mynd i Birmingham*.

Y mis hwn cynhelir Noson Lawen gan Gwmni Dawns Caerdydd yng ngwesty'r Astoria ar 15 Mai fel rhan o firi jiwbili Canolfan yr Urdd.

**Copi mis Mehefin i gyrraedd erbyn 22 Mai 1992**

y Dinesydd

Parc Afon, Bridge Road, Ystum Taf, Caerdydd CF4 2JL
0222 578772 fax 0222 567639
hysbysebu 0222 567639
Golygydd: Shân Emlyn; Cynhyrchu: Surravit
© Dinesydd 1992
Cydnabyddir gymorth y Swyddfa Gymreig a Chyngor y Celfyddydau wrth ariannu'r rhifyn hwn

# HER I HOLL DDARLLENWYR Y DINESYDD

Roedd diflaniad y Faner yn ystod mis Ebrill yn dangos pa mor fregus yw einioes nifer fawr o gylchgronau Cymraeg. Yn eu plith mae'r Dinesydd.

Dro ar ôl tro mae'r Dinesydd wedi bod yn darogan ei dranc ei hun, a thro ar ôl tro mae'r Dinesydd wedi goroesi'r argyfyngau sy'n ei wynebu. Mae'n ddigon posib bod hynny wedi digwydd cynifer o weithiau fel nad oes llawer yn sylweddoli gwir sefyllfa argyfyngus y Dinesydd.

Mae David Meredith, perchennog y Faner, yn y rhifyn hwn o'r Dinesydd yn rhoi ei sylwadau am farwolaeth ei gylchgrawn 150 oed. Ac asgwrn y gynnen eto yw arian.

O ystyriwn fod costau cynhyrchu 4000 copi o'r Dinesydd yn fisol nesa peth at £1500 heb gyflogi staff, o'i gymharu â £2500 ar gyfer tua'r un nifer o'r Faner yn wythnosol oedd yn cyflogi staff, mae'n amlwg bod modd nodi nifer o gyffelybiaethau. Cofiwn hefyd bod cylchrediad y Dinesydd yn uwch hyd yn oed na chylchgrawn Golwg led led Cymru.

Ar hyn o bryd mae'r Dinesydd yn dibynnu bron yn llwyr ar incwm hysbysebu i'w gynnal, gyda grant bychan gan y Swyddfa Gymreig a Chyngor y Celfyddydau yn cadw'r blaidd o'r drws. Mae perygl gwirioneddol fodd bynnag y bydd cyfran helaeth o'r incwm hwnnw yn diflannu gyda dyfodiad tebygol cylchgrawn Cymraeg poblogaidd newydd o fewn blwyddyn neu ddwy a fydd yn gofyn am £200,000 y flwyddyn i'w gyhoeddi.

Er mwyn sicrhau dyfodol y Dinesydd mae arnom angen sylfaen ariannol gadarn. Un ffordd o gyrraedd y nod hwnnw yw gofyn am a chael cymorth ymarferol ac ymroddiad ein 10,000 o ddarllenwyr misol.

Dros y misoedd nesaf rydym yn cynnal ymgyrch o'r enw Dinesydd 2000 i'ch annog i danysgrifio neu gyfrannu'n ariannol i'r Dinesydd.

Byddai cyfraniad o £15 y flwyddyn gan 1000 o bobol i gael y Dinesydd drwy'r post yn help i osod y seiliau cadarn sydd arnom eu hangen. Byddai 2000 o gyfeillion yn well byth. Gorau i gyd po fwyaf o arian a gawn er mwyn i ni allu cynnal a datblygu'r Dinesydd. Rhown wahoddiad i bawb sy'n gweld gwerth a phwrpas mewn cadw'r ffynhonnell hon o gyfathrebu Cymraeg yng Nghaerdydd i estyn i'w pocedi cyn ddyfned â sydd bosib.

Does bosib nad oes o leia 1000 o bobol o blith poblogaeth o dros 14,000 o siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd yn gallu'n helpu.

Yn y rhifyn hwn cewch gopi o'n taflen danysgrifio. Mi fydd yr un daflen hefyd ar gael mewn gwahanol fannau cyhoeddus ar hyd a lled Caerdydd. Llenwch hi, a'i dychwelyd atom. Ni fydd angen stamp arnoch i wneud hyn.

Mae'r ymateb a gawsom i'n harolwg yn dangos bod y mwyafrif ohonoch yn fodlon talu am y Dinesydd. Gyda sylfaen ariannol dda gallwn barhau, gwella a chryfhau'r cylchgrawn. Edrychwn ymlaen at gael eich cefnogaeth ymarferol.

# Colofn Shân

**DWI AM RANNU** profiad unigryw a chwbwl annisgwyl a gefais yn ddiweddar. I dorri stori hir yn fyr, mi ges i "docyn mantais" i fynd i fferm iechyd am ddeuddydd. Do, wir yr! Be o'n i i'w wneud ag o? Ei daflu? Neu fentro?

Roedd y fferm yn swydd Stafford – bellteroedd i ffwrdd. Mae'r gair fferm yn gamarweiniol – plasdy moethus ym mherfeddion cefn gwlad oedd y lle.

I greadures sydd ddim yn mwynhau gyrru, ond yn falch o allu cyrraed pob pwyllgor a 'steddfod a'r teulu bach yn y Felinheli â'm llaw wrth y llyw, roedd meddwl am gyrraedd gogledd Lloegr ar fy liwt fy hun yn eith brawychus.

Ond â'm styfnigrwydd mulaidd, roedd rhaid concro'r ofn hwnnw a chyrraedd y lle anhygyrch, ac ymgodymu â'r ofn.

Felly o gam i gam fel hyn y bu hi. Ffonio a sicrhau dyddiad. Iawn. I M&S a phrynu trac siwt a gwisg nofio. Wedi'm magu ym Mhwllheli, mi fedrai nofio, ond heb fentro ers blynyddoedd lawer – ond mae o fel reidio beic yn tydi – a mi fûm i'n gwneud hynny o'r blaen.

Darganfod bod raid mynd ar hyd yr M4, M50, M5 a M6. Wel dyna i chi hunlla i greadures sy'n casau traffyrdd. Dim amdani ond llunio map Shân Emlynaidd – heb dde na gogledd arno – dim ond top a gwaelod a de a chwith.

Am saith y bore dyma gychwyn – â'm calon yn fy ngwddw. Oeddwn i'n lloerig yn cychwyn gan wybod fy mod yn mynd i orfod ymdroelli o amgylch Spageti Junction ac anelu rywsut am Litchfield? Wel, fe lwyddais, ac efo caset Hogiau'r Wyddfa yn diasbedain *"Mae'n wlad i mi ac yn wlad i tithau"* wele fi'n gyrru trwy giatiau mawreddog. Rhyddhad o gyrraedd ond, y tu mewn i mi, llais yn gweiddi "Be goblyn wyt ti'n da yn fama!"

Yn dilyn, merch ifanc hardd y fy nhywys o gwmpas y lle. Sylwodd ar fy enw Cymraeg a holi. Hogan o Bentrefoelas a'i brawd yn reolwr banc ym Mhorthmadog! Dyma ymlacio dipyn.

Yna i weld nyrs – fy mhwysau yn iawn am fy oed! Finna'n deud "But as I grow older the distribution is not as I would wish!". Y nyrs wedyn yn deud bod fy mhwysedd gwaed yn uchel a'm pyls yn gyflym. O ganlyniad i Shân Em ar draffyrdd mae'n siwr medda fi. Anogodd fi i fynd am ginio ac yna i orwedd.

Y cinio – 'stafell foethus a helpu'ch hun. Saladau a chigoedd a physgod o bob math, tatws trwy'u crwyn a phrydau poeth, ond y cyfan wedi'i raddio yn ôl goleuadau traffig. Y gwyrdd â chaloriau isel; melyn, mwy; a'r coch, bwytewch os oes raid i chi. Mi gedwais at y melyn.



I'm llofft hynod foethus gan feddwl ymlacio am ryw hanner awr. Deirawr yn ddiweddarach fe ddeffroais! Am wastraff a minnau ond yno am gwta ddeuddydd. Ond er lles mae'n rhaid. Nôl at y nyrs – y pyls a'r pwysedd gwaed yn normal. Od ynte bod rhywun yn gallu bod yn giami heb yn wybod.

Penderfynais gymryd popeth oedd yn gynwysiedig yn y "tocyn mantais" a dim mwy.

Y profiad cynta – massage – er swildod, mwynhau'r profiad yn arw. Cinio'r nos mewn stafell wahanol i'r cinio canol dydd, a'r fwydlen eto wedi ei graddio yn ôl goleuadau traffig. Pryd moethus, cregyn gleision mewn saws gwin, iau mewn saws a llysiau i ddilyn, a phwdin oren a gwydriad o win.

Yn syth i'm llofft wedyn, bath a gwely a chysgu fel top. Drannoeth roedd rhaid gwisgo'r wisg nofio. Lawr â fi yn gwisgo popeth newydd o M&S. Ar ôl brecwast mentro i'r pwll. Rhy swil i ymuno â'r Aqua Session, felly eistedd yn y jacuzzi yng nghornel y pwll a gwylio. Y tro nesa – a ffansi y bydd 'na – mi allwn fwynhau'r Aqua Session yn iawn.

Cael fy ngalw wedyn i Hydrotherapi. I mewn i jacuzzi arall a merch yn tywallt sachaid o stwff gwyrdd-frown i'r dŵr. "What's that?" medda fi. "Seaweed" meddai hi, gan ymhelaethu ar ei rinweddau. "Good heavens," medda fi, "in Wales we eat it!"

Does dim lle i sôn mwy, dim ond deud, efo fy map bach fy hun â'i ben i lawr, do fe lwyddias ar ôl cinio iach i ymdroelli'n ôl a chyrraedd yn ddiogel i Lain Llandaf. Dipyn o brofiad a dipyn o orchest i Shân Em!

DEUD FY NEUD

# RHWYGO'R FANER

DAVID MEREDITH

**GYDA THRISTWCH** a siom i ni fel perchnogion ac i'n darllenwyr yng Nhymru, yng ngweldydd Prydain ac ar hyd a lled y byd, y daeth *Y Faner* i ben ar 17 Ebrill 1992.

Nid marwolaeth naturiol oedd marwolaeth *Y Faner*, cael ei llindagu a wnaeth. Gwrthododd Pwyllgor Llenyddiaeth Cyngor y Celfyddydau â rhoi arian call i'r *Faner*, cynigiwyd £5,300, a'r cylchgrawn angen o leiaf £50,000. Mae cost cynhyrchu pob un o'r 49 rhifyn y flwyddyn, oddeutu £2,500.

Lladdwyd *Y Faner* gan fiwrocratiaeth, y math o fiwrocratiaeth sy'n dweud, "Ryden ni'n cefnogi'r *Faner*, ryden ni'n drist, ryden ni ddim am weld *Y Faner* yn marw. Ond mae'r rheolau wedi eu gwneud, fedrwn ni mo'u newid nhw" – a ninnau'n gwybod fod digon o arian o fewn y Cyngor i weithgaredddau eraill.

***Ble mae cyfiawnder a thegwch?***

Dywed Toni Bianchi, Cyfarwyddwr Llenyddiaeth y Cyngor mai cylchgrawn o natur cyffredinol yw'r *Faner*, nad yw'n ymwneud yn bennaf â'r Celfyddydau – chwerthinllyd meddwn ninnau. Gŵyr pawb fu'n darllen *Y Faner* y blynyddoedd diweddar hyn am yr amrywiaeth mawr o lên a chelf sydd wedi bod yn byrlymu drwy dudalennau'r *Faner*; mae'r dystiolaeth yno i'w gweld. A beth am yr wythnosolyn Cymraeg presenol



• David Meredith

sy'n cael ei ariannu gan y Cyngor, ydi hwnnw yn ymwneud yn bennaf â'r Celfyddydau?

Gwyddom na fu ymwneud y Cyngor ynglŷn â chylchgrawn wythnosol Cymraeg yn deg. Y gwir yw i ddirprwyaeth o'r Cyngor ymgyrchu – fynd o gwmni teledu i gwmni teledu i geisio cefnogaeth i un cylchgrawn – ac nid *Y Faner* oedd hwnnw. Ai tegwch yw hyn gan gorff cyhoeddus? Ni chredaf hynny.

Mae'r stori lawn i'w dweud eto, ond erys un ffaith, mae Pwyllgor Llenyddiaeth ein Cyngor Celfyddydau wedi mynd o'r tu arall heibio heb wneud dim i achub cyhoeddiad Cymraeg oedd yn fyw gyda miloedd o ddarllenwyr o wythnos i wythnos.

Ond y mae yna un testun diolch, sef diolch am ymgyrch ysbrydoledig a gwych Bwrdd yr Iaith dros *Y Faner*. Mae ein dyled iddynt yn y cyfnod anodd yma yn enfawr.

## ANNWYL DDINESYDD

### GAIR O'I LE

Synnais a siomais wrth ddarllen yr erthygl amdanaf yn y Dinesydd cyfredol.

Dwi wedi arfer â newyddiadurwyr yn dehongli drostynt eu hunain beth yw'r ffeithiau perthnasol, ond dwi hefyd wedi arfer hefo nhw'n sicrhau cywirdeb drwy ffonio'r gwrthrych yn gyntaf. Petaech wedi gwneud hyn, fel y gwnaeth y papurau mawr lleol, yn ogystal â rhai o Loegr, byddech wedi darganfod fy mod, cyn i mi "golli" fy swydd, wedi gofyn i HTV ddwy waith i'm rhyddhau o'm dyletswyddau.

Fe ddaeth fy nghyfnod i ben drwy ddealltwriaeth cyfeillgar. Chi yn unig o'r wyr pam oedd rhaid symud oddi wrth ffeithiau'r datganiad i'r wasg, a rhoi eich dehongliad od eich hun i'r oll.

Yn ogystal, ni ddwedais wrth yr un adyn byw fy mod am "gynhyrchu mwy o raglenni Saesneg" i Agenda, ac nid oedd hyn yn rhan o'r un datganiad i'r wasg lle cawsoch eich "ffeithiau". Efallai y daw cyfle i ychwanegu rhai Saesneg at y cyflenwad Cymraeg presennol, ond nid ar draul rhaglenni Cymraeg fydd hynny. Mater yn y dyfodol i fwrdd Agenda ydy hyn i gyd, ac nid i ddychymyg byw y Dinesydd i greu o ddim byd, ac am ba bynnag reswm.

***Peter Elias Jones***
***Dinas Powys***

*Daeth y wybodaeth am benodiad Peter o ddatganiad i'r wasg ac erthygl am ei benodiad yn y cylchgrawn Television Week. Ymddiheurwn am unrhyw loes a gafodd o'r cyfeiriad ato, gan gydnabod bod y geiriad am sut adawodd HTV hwyrach yn anffodus.*

### GAIR O DDIOLCH

Ers dechrau Chwefror mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg wedi'i hymgorffori yn Adran Efrydiau Allanol Prifysgol Cymru, Coleg Caerdydd. Mae'r gwaith yn cael ei barhau fel o'r blaen, felly, a hynny heb i'r un o swyddi'r staff presennol gael ei challi.

Carwn fanteisio ar y cyfle hwn, trwy golofnau y Dinesydd, i ddiolch i bawb a'n cefnogodd mor selog yr haf diwethaf pan ofnwyd bod bwriad i gau'r Ganolfan a gwasgaru'r adnoddau.

Trwy arwydda deiseb a thrwy ysgrifennu'n uniongyrchol at awdurdodau'r Brifysgol, dangosodd rhai miloedd o bobl eu gwrthwynebiad. Mae pawb yma, yn staff ac yn ddysgwyr yn ddyledus iawn iddyn nhw i gyd.

***Chris Rees***
***Canolfan Dysgu Cymraeg***

### GAIR O GEFNOGAETH

Mae meddwl am fyddardod rhai o ddarllenwyr y Dinesydd yn fy rhyfeddu. Onid ydym yn barod i dalu amdano drwy ymateb i apeliadau, dydyn ni ddim gwerth ein halen. Dyma gyfraniad o £15 gan un sy'n ddiolchgar am y gwaith mawr gwirfoddol sy'n ei gynhyrchu a'i gynnal.

***Meredydd Evans***
***Aberystwyth***

*Diolch i Merêd am ei gyfraniad i gychwyn chwydda coffrau ymgyrch Dinesydd 2000*

### GAIR O WYDDELEG

Eleni cynhelir pedwerydd Cwrs Gwyddeleg Cairde Cymru (Cyfeillion Cymru) ym mhentre An Spidéal (Spiddle) ger dinas Galway yng ngorllewin Iwerddon yn y Goeltacht rhwng 25-29 Mai.

Amcan y cwrs dwys yw rhoi cyfle i Gymry Cymraeg ddysgu tipyn bach am Iwerddon, ei hiaith a'i diwylliant. Y Gymraeg fydd cyfrwng y dysgu wrth gwrs.

Bydd y myfyrwyr yn aros gyda theuluoedd lleol lle cân nhw gyfle i glywed ac ymarfer yr iaith, a'r gost fydd £135 am wely, brecwast, swper – a'r gwersi. Cysylltwch â mi am fwy o wybodaeth.

***Richard Ll Lewis***
***Y Rhâth. Ffôn 390980 neu 470803***

## POBOL

# DEGAWD GALONOGOL

***AR FORE'R*** 4 Mai 1982, yn ysbyty Harefield, daeth Ken Innes o'r Eglwys Newydd y Cymro Cymraeg cyntaf i gael calon newydd.

Ken oedd y pedwerydd Cymro i gael trawsblaniad calon, calon a newidiodd ei fywyd yn syfrdanol heb unrhyw gymhlethododau meddygol.

Ddeng mlynedd yn ôl, yn 51 oed, prin oedd Ken, yn brifathro ar Ysgol Bryn Deri yn Radur, yn gallu cerdded heb golli ei wynt.

Ac nid ar chwarae bach mae Ken yn canu clodydd Dr Christiaan Barnard, y llawfeddyg a roddodd ei galon newydd iddo, ac yn un o hoelion wyth cymdeithas cyngleifion ysbyty Harefield.

Mae aelodau'r gymdeithas, sydd i gyd yn bobol sydd wedi cael trawsblaniad a'u teuluoedd, yn cyfarfod yn flynyddol ac yn weithgar mewn codi arian ar gyfer hybu ymchwil i'r gwaith a wneir yn Harefield.



• Ken ac Ann Innes. llun: South Wales Echo

## ENILLYDD!

### GWOBRWYO DINESYDD

***ENW*** Ms J J James o Landâf oedd y cyntaf o'r het yng nghystadleuaeth holiadur y Dinesydd. Mae'r tocynnau gwerth £20 ar gyfer Neuadd Dewi Sant ar eu ffordd!

## MENNA'N MANYLU

# MENNA'N CENHADU

***DYMA HI'N*** Ddydd Gwener y Groglith a ninne'n gorymdeithio ar hyd y Via Dolorosa yn Jerwsalem – yr union ffordd y cerddodd yr Iesu gan gario'i groes i gael ei groeshoelio bron ddwy fil o flynyddoedd yn ôl.

Mae'r stryd wedi'i hamgylchynnu gan fur ag iddo wyth porth – Porth Herod, y Llewod, y Porth Newydd, Damascus, Jaffa, Seion, Porth y Baw a'r Porth Aur – yr olaf wedi'i gau gan fod yr Iddewon yn dal i ddisgwyl i Fab Dafydd neu'r Meseia gerdded o Fynydd yr Olewydd a thrwy'r Porth i achub Israel a'i phobol. Claddir pobol yn wynebu'r mur gan ddisgwyl atgyfodiad yn dilyn dyfodiad y Meseia.

Mae Menai, merch fy chwaer yn gweithio yma mewn canolfan i blant efo palsi'r ymennydd, sef Canolfan y Dywysoges Basma, sy'n cael ei redeg gan y Cenhedloedd Unedig – y Dywysoges yn chwaer i Frenin Hussein yr Iorddonen. Oherwydd gwaith clodwiw'r ganolfan, y merched gwirfoddol, a'r Arabiaid sy'n cael eu cyflogi yma, mae croeso mawr i orllewinwyr yn Nwyrain Jerusalem a chawsom ninne deithie rhatach mewn sheroots (tacsis) o'r herwydd!

Roedd tyrfa o bob lliw, llun, tras, cenedl ac enwad yma ddydd Gwener y Groglith a gwelsom y gwrthdaro rhwng Cristnogion, Pabyddion ac Iddewon.

Heddiw hefyd gwelsom Mur Wylofain efo'r holl Iddewon yn crio am ddinistr y Deml pryd yr adeiladwyd Mosg ar y safle.

Cefais i ddim teimlad o wefr ysbrydol hyd yn hyn, er i mi weld mynydd Golgotha a'r eglwys sy'n dynodi'r man lle croeshaeliwyd Iesu. Roedd man yr eneinio a'r safle lle'i claddwyd o dan addurniade Rwsiaidd oedd yn tynnu ar realiti'r digwyddiad, a dryswch hefyd oedd y ffaith fod safle arall gerllaw lle'r honnir i hyn i gyd ddigwydd.

I mi, yr ail oedd y mwyaf argyhoeddedig, sef Gardd Golgotha. Mae'r safle ar ffurf penglog ac nid nepell mae twll mawr yn y wal sy'n debycach i'r bedd gwreiddiol. Yr unig ddrwg am y safle yma oedd mai Saeson oedd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r lle!

I orffen y daith yn Jerwsalem dyma ymweld â Gardd Gethsemane lle bradychwyd Iesu, a lle saif Eglwys yr Holl Genhedloedd i gofio hynny.

Cyn ffarwelio â rhan Ddwyreiniol y ddinas rhaid oedd ymweld â Pater Noster lle dysgodd Crist weddi'r Arglwydd i'w ddisgyblion. Ceir hi ar y wal mewn 90 o ieithoedd ac mae'r Gymraeg yn un o'r rheiny – er o dan glo, roedd cardiau post yn brawf o'i bodolaeth.

COFIANT

# Y DIDDANWR GREDDFOL A'R STORIWR PENIGAMP

TELERI BEVAN

***LLAIS ALUN WILLIAMS*** fu llais darlledu yng Nghymru am dros ddeugain mlynedd. Bu ei gyfraniad i'r cyfrwng ac i'w genedl yn unigryw.

Sylwebydd, cyflwynydd, cynhyrchydd, siaradwr cyhoeddus, arweinydd cyngherddau ac arweinydd Cymanfaoedd Canu a'r hyn oedd yn nodweddi ei waith i gyd oedd ei ddisgyblaeth, ei feistroldeb a'i frwdfrydedd heintus. A hefyd wrth gwrs ei hiwmor!

Yn ben ar y cyfan roedd ganddo berthynas agos â'i gynulleidfa. "Shwd ych chi Mrs Thomas....!" Doedd e ddim yn sinic nac yn nawddoglyd – roedd ganddo ormod o barch i'w gynulleidfa i hynny.

Gŵr y wireless oedd Alun! Roedd e'n storiwr penigamp ac yn ddiddanwr wrth reddf. Fel mab y mans roedd e'n gyfathrebwr naturiol ar lwyfan neu wrth y meicroffon.

Mae nifer o'i ddarllediadau allanol yn sylwebu ar ddigwyddiadau ac achlysuron o bob math yn glasuron o'u bath, ee: râs fawr y nofiwr Anita Lansborough; trychineb y gêmau Olympaidd Munich; coroni'r Frenhines Elisabeth; Francis Chichester yn dychwelyd ar ôl ei daith hwylio rownd y byd. Roedd e'n medru creu darluniau geiriol a thynnu o'i wybodaeth eang i ddod a'r pell yn agos i'w wrandawyr.





• Lluniau BBC Cymru

Medrai symud yn llithrig rhwng un iaith a'r llall ac fe wnaeth gyfraniad gwahanol ac arbennig i Radio Cymru a Radio Wales. Mae arna i ddyled fawr iddo am fod yn gefn ac yn gyfaill yn ystod dyddiau cynnar tymhestlog cychwyn Radio Wales. Roeddem ein dau am greu gwasanaeth fyddai'n plesio trwch o'r bob-logaeth; fyddai'n pontio dwy gymdeithas heb fod yn efelychiad o unrhyw wasanaeth arall.

Roedd rhaglenni Alun yn taro deuddeg yn ddyddiol – roedd e'n 'nabod pawb wrth gwrs! Na, ei gyfrinach oedd fod pawb yn ei nabod e! Mr Williams y BBC!

Bu'n gyfrifol am nifer o gyfresi radio poblogaidd, yn cynnwys *Radiogampus, Sut Mae Heno, Dewch am Dro, Alun yn Galw*, a *Nine Five*. Bu'n teithio led led Cymru yn perfformio gyda chriw Ryan a Ronnie ac yna Max Boyce ac mi fyddai yn ei anterth a'i afiaith wrth y piano yn dehongli'r gweithiau'r meistri cerddorol mewn dull nodweddiadol Cymreig.

Cadwodd yr un swydd trwy gydol ei yrfa gyda'r BBC. 'Sylwebydd'. Doedd dringo'r ysgol i swydd weinyddol ddim yn apelio ato er i Geraint Stanley Jones ei annog i wneud hynny sawl gwaith.

Nid dyn y coridorau a'r pwyllgorau oedd Alun ond medrai roi ei farn yn onest a di-flewyn ar dafod pan oedd angen.

Cefais sawl orig yn ei gwmni yn trafod syniadau dros ginio yn rhannu ambell i gyfrinach tra'n nofio'n blygeiniol ac yn gwrando ar ei storïau digri a difri wrth deithio ar y gamlas yng Ngwent.

Yn gefn iddo bu Perrie, y plant Rhys, Nia ac Eli a'r wyrion a'r wyresau wrth gwrs. Roedd y farn deuluol ar ei waith yn hanfodol bwysig iddo. Estynnwn ein cydymdeimlad iddyn nhw yn eu colled.

HEL MEDDYLIAU

# CYFRINACHAU

HUW ETHALL

***CYFRINACHAU*** yw testun y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Llanelwedd y flwyddyn nesaf, ac mae'n destun da.

Mae'n ein hatgoffa o gyfrol OE Roberts (Lerpwl bryd hynny, ond Radur nawr) yn Eisteddfod Aberystwyth ym 1952, ***Cyfrinachau Natur ac Ysgrifau Eraill***. Enillodd y fedal drachefn ym 1954 gyda'i gyfrol ***Y Gŵr o Ystradgynlais***, ie yn Eisteddfod Ystradgynlais. Camp eto'n wir. Mae'n hen bryd iddo ddod â chyfrol arall allan.

Tybed pa gyfrinachau a ddadlennir yng nghyfrolau Llanelwedd? Pa gyfrinachau a fyddech chi a minnau yn barod i'w dadlennu tybed? Nid pob un ohonynt mae'n sicr.

Morgan Llwyd oedd un o'n llenorion mwya ni, ac yn ei glasur ***Llyfr Tri Aderyn*** meddai'r Golomen *"Gwyn eu byd y rhai ysbrydol, cans gyda hwy y mae cyfrinach Duw"*. Pa gyfrinach yw honno tybed?

Roedd Morgan Llwyd yn byw yng nghyfnod cythryblus y Rhyfel Cartref (fe'i dethlir yn Lloegr eleni gan iddo ddechrau ym 1642), ac felly myfyrdodau y dyddiau esmwyth sydd ganddo yn ei weithiau.

Meddai Dyfnallt yn Coffa Morgan Llwyd: *Gwelodd Morgan Llwyd bileri'r oes yn gwegian, gwynt chwyldro a rhyfel yn difrodi etifeddiaeth dyn; chwythodd ystormydd drwy ei feddwl a'i amgylchiadau, rhuthrodd llanw ar ôl llanw ar draws ei gynefin, ond yr oedd y byd yn gyfan ac yn un. Yr oedd Duw yn Ganolbwnc cadarn iddo, siaradodd y Dirgelwch Mawr iaith newydd yn ei galon a rhoi arddull gweledydd a phroffwyd i'w leferydd. Gwnaeth ei nyth yn mawredd a Chariad Duw.*

Gair ar gyfer oes gythryblus felly oedd gan Morgan Llwyd, ac mae'n llais ar gyfer ein dyddiau helbulus ninnau, yn arbennig i'r Eglwys sy'n ceisio cynnal y credinwyr (y 'rhai ysbrydol' gobeithio).

Yn ôl Morgan Llwyd nid Duw yn unig sydd gyda'r rhai ysbrydol, ond ei gyfrinach yn ogystal.

Nid Morgan Llwyd oedd y cyntaf i sôn am gyfrinach Duw. Yn Llyfr Job ceir Eliffas y Temaniad yn gofyn i Job *"A wyt ti'n gwrando ar gyfrinach Duw ac yn cyfyngu doethineb i ti dy hun?"*. Credai Paul yntau fod gan Dduw ei gyfrinach: *"Bydded i bob dyn ein cyfrif ni fel gweision Crist a goruchwylwyr dirgelion Duw"*.

Rhaid bod mewn perthynas agos iawn ag unrhyw un i gael ei gyfrinachau. Ni ddywed neb mohonynt wrth estron. I'r Cristion, gweddi – o bob cyfrwng – sy'n creu'r berthynas agos honno rhwng dyn a Duw. Mae rhannu cyfrinachau wedyn rhwng y naill a'r llall.

CYSTADLEUAETH DINESYDD 2000

# EICH CYFLE CHI I WELD TOM JONES!

## TOCYNNAU GWERTH £105 I'W HENNILL GYDA DINESYDD 2000

**6 TOCYN I'W HENNILL**

**Yn gysylltiedig â Chôr y Byd, mae'r Dinesydd yn cynnig tri phâr o docynnau i'r achlysur cerddorol mwya a welwyd erioed yng Nghymru.**

Ymhlith yr atyniadau Côr y Byd yn y Maes Cenedlaethol ar 23 Mai mae Tom Jones (prif lun), sy'n perfformio am ddim – fel gweddill yr unawdwyr – er mwyn helpu'r achlysur sy'n codi arian tuag at elusennau.

Yno hefyd yn eu hafiaith fydd Dennis O'Neill, Dame Gwyneth Jones (llun bach) ac Oliver Sammons a ddyfarnwyd yn Unawdydd Côr y Flwyddyn.

Bydd y côr mwyaf a welodd Cymru os nad y byd – hyd at 10,000 o leisiau – yn atseinio drwy Barc yr Arfau, ynghyd â phedwar seindorf milwrial, oll o dan arweiniad Owain Arwel Hughes.

Bydd y digwyddiad cyfan yn cael ei ddarlledu'n fyw ar S4C ddydd Sadwrn 23 Mai.

Mae tocynnau i'r achlysur ar gael am £17.50 o swyddfa Côr y Byd, ffôn 691999, neu o City Centre Ticketline, ffôn 230130.



Lluniau: HTV Cymru a BBC Cymru

**Mewn cystadleuaeth Dinesydd 2000 mae cyfle i chi ennill pâr o docynnau i weld Côr y Byd**

Mae gennym dri pâr o docynnau gwerth £35 i'w rhoi. Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw dychwelyd taflen danysgrifio Dinesydd 2000 wedi ei llenwi atom erbyn yr ail bost ddydd Mercher 20 Mai, pan dynnir tri enw o'r het. Nodwch eich rhif ffôn ar y daflen fel bod modd i ni gysylltu â chi.

### LLON A'R LLEDDF

- *Priodwyd Carys Lewis ac Andy Pitthouse ar 26 Mawrth, ac Alun ap Brinley a Bethan Cairns ar 28 Mawrth*
- *Ein cydymdeimlad i Robin Jones a'i deulu yn eu profedigaeth ar ôl colli mam yn ddiweddar*
- *Ein cydymdeimlad hefyd i Ann a David Williams ar ôl colli mam, Gwen Morgan Rees*
- *Ganed mab o'r enw Gruffydd i Pamela Williams*
- *Penodwyd Bryan James i swydd Prifathro Rhydfelen, a Dr Phil Elis yn ddirprwy iddo*

### GŴYL GERDDI CYMRU



Erbyn hyn mae Gŵyl Gerddi Cymru yng Nglyn Ebwy wedi bod ar agor ers wythnos, a'r chwarter miliwn o ddaffodils wedi agor bellach a chôr ysgol Glantaf wedi rhoi cychwyn ar y gweithgareddau ar 1 Mai.

Fel y disgwyliech dewiswyd y daffodil fel arwydd i'r Ŵyl hon, a rhoddwyd y bylbiau mewn oergell am dri mis er mwyn sicrhau na fyddai'r blodau wedi hen ddiflannu erbyn mis Mai.

Ar wahân i bob mathau o bethau sydd i'w gweld yng Nglyn Ebwy o hyn i ddechrau Hydref, dyma flaslun o'r arddangosfeydd garddwriaethol sydd i'w gweld yno yn ystod mis Mai:

*9 - 17 Mai: y cactai a'r planhigion alpinaidd*
*23 - 31 Mai: planhigion tŷ, planhigion i'w plannu allan, a blodau addurno*

Un o'r gerddi mwyaf anarferol fydd gardd perlysiau mynachaidd a drefnwyd gyda chymorth meithrinfeydd Gillespies, Symonds a Blakedown.

Yma gwelir sut y defnyddid perlysiau ar gyfer coginio a gwella anhwylderau dros y canrifoedd yng Nghymru, yn arbennig mewn deddfau derwyddol, llysieuaeg yn neddfau Hywel Dda, hanes Meddygon Myddfai, a golwg ar yr ardd fynachaidd.

Mae'r wledd yn cychwyn yng Nglyn Ebwy!

BYD Y BOL

## Â'I BEN YN Y FFWRN

DAFYDD SAER

Dyma fi nôl wedi absenoldeb anffodus o rai misoedd. Rwy wedi cytuno i ysgrifennu i'r Dinesydd (am ddim) unwaith eto, er fod y bwrdd golygyddol wedi gwrthod yn lân â rhoi slot dudalen flaen i mi, mewn lliw.

Yr un bwrdd golygyddol, sylwer, a wrthododd adael i'r dyn mawr Robert Maxwell gymryd awenau'r Dinesydd. Pe baent wedi bod â digon o weledigaeth i ildio'r llyw iddo, diau y buaswn innau yn awr yn ysgrifennu i'r Mirror, ac yn sicr buaswn wedi gwireddu fy uchelgais o gael ymddangos ar Heno i goginio i Angharad Mair a Gary Slaymaker. Ta waeth.

Fel y gŵyr ein darllenwyr sydd â chanddynt ogwydd lenyddol, ym mlynyddoedd cynnar y ganrif hon ymsefydlodd nifer o lenorion amlycaf ein cenedl yn y garden village enwog yn Rhiwbeina – yn eu plith roedd mawrion megis TH Parry Williams, Kate Roberts, Elfyn Mearns, T Rowland Hughes ac ati.

Mae cyfaill i mi newydd symud i dŷ oedd yn arfer perthyn i Elfyn Mearns ym 1931, ac wrth adfer y lle tân ym mis Ebrill eleni, darganfu hen femrwn arwyddocaol, lle roedd y llenorion wedi arwyddo cytundeb cudd gyda'i gilydd i adael eu hoff rysait, yn eu llawysgrif eu hunain, dan yr aelwyd.

Yn anffodus difrodwyd y rhan fwyaf o'r memrynnau gan wrês dros y blynyddoedd, ond erys hoff rysait Elfyn Mearns ar gof a chadw i ni gael ei mwynhau yn y nawdegau. Dyma hi:

***Brechdan Fara a Chaws***
*2 doc o fara*
*ymenyn*
*caws*

*Taenwch yr ymenyn ar y ddau doc o fara, a dodwch y caws rhyngddynt*

## *TALIESIN*

Cyfrol 76 - ar werth yn awr - £1.75

### *GWENLYN PARRY*

Teyrngedau gan Harri Pritchard Jones, William R Lewis a John Ogwen.
Cerdd fer gan Gwenlyn ysgrifennwyd fis cyn ei farw.

### *LLOSGI'R YSGOL FOMIO*

Atgofion O.M. Roberts am ei ran yn y llosgi ac ysgrif gan Bedwyr Lewis Jones am ymateb chwyrn R. Williams Parry.

### *CERDDI NEWYDD*

Rhydwen Williams a John Hywyn

### *STORIAU BYRION AC YSGRIFAU*

Gwyn Williams, John Rowlands, Bobi Jones, E. Wyn James, Mathonwy Hughes, Gerald Morgan, Nest Lloyd, Dafydd Arthur Jones, Judith Maro.

### *TALIESIN 76*

Ar werth yn awr yn eich siop lyfrau neu trwy'r post oddi wrth: Yr Academi Gymreig, Ty Mount Stuart, Sgwar Mount Stuart, Caerdydd, CF1 6DQ.

## Huw Roberts BSc, ACMA

*Cyfrifydd*

Aelod o FIMBRA

*Cyngor ariannol annibynnol ar gyfer treth, pensiynau ac yswiriant personol*

**Y Rhodfa, 5 Pine Court, Forest Hills,**
**Talbot Green, Morgannwg Ganol CF7 8LA**
**Ffôn Llantrisant (0443) 224182**

## ffilmie matinée

Cofiwch wylio trydedd gyfres

**HAPUS DYRFA**

S4C, Nos Sul, 10 Mai, 7.25PM

CYNHYRCHIAD FFILMIE MATINÉE

## SPA
SUCCESSION PLANNING ASSOCIATES

**Mae ein gwasanaethau yn cynnwys:**

**Chwilio**
**Dethol**
**Hysbysebu**
**Asesu**
**Archwilio Rheoli**
**Profi Seicometrig**

John Smith, Cyfarwyddwr Rheoli
11 Rhodfa Raleigh, Cei yr Iwerydd,
Caerdydd CF1 5LN
Ffôn 0222 450260

DAWNS YN

## chapter

DEWCH I WELD UNRHYW UN O'R TRI PERFFORMIAD YMA YN CHAPTER AC FE GEWCH DOCYN MYNEDIAD AM DDIM I UNRHYW SIOE ARALL O'CH DEWIS CHI

I ARCHEBU TOCYNNAU FFONIWCH 0222 399666 NEU GWELWCH GYLCHGRAWN CHAPTER AM RAGOR O FANYLION

**DIVERSIONS DANCE Co**
*Iau 7 – Sadwrn 9 Mai*

**EARTHFALL DANCE Co**
*Iau 21 – Gwener 22 Mai*

**YOLANDE SNAITH'S DANCE QUORUM**
*Sadwrn 6 Mehefin*

# CROESAIR AP LEWSYN RHIF 119 MAI 1992



***I Lawr***

1. Un sydd wedi torri (8)
2. Prynaf gyfran o'r cwmni (8)
3. Mae cwrs i gywiro enw tref y coe ros (7)
4. Tipyn o darth o gwmpas i glown od (6)
5. Mae'n dringo wrth fynd (1,1,4)
6. Prynu ein tir do, ei droi yn drylwyr, a chael injan i dân y crwd (8,5)
7. Peidiai tuchan Geraint, a daeth i drefn, pan ddaeth y swyddogion i'r golwg (13)
13. Bachgen sy'n dangos tipyn o swildod (3)
15. Oen sy'n troi yn feiddgar (3)
17. Naws yr hollfyd (8)
18. Clebran parchus (8)
19. Epil didoro y fuwch yn distyllu diferion? (7)
21. Morus yw ei enw (1,5)
22. Bachgen sy'n rhoi ennes a thipyn bach dros ben (6)

***Ar Draws***

6. Ymagweddu yn foddhaus, gan owgrymu yn gadarn nad oes disgwyl i chi wneud dim mwy (5,8)
8. Epil âr fach yr haf (6)
9. Cenau sy'n "ddarbodus o'i gwir"?
10. Does dim ohonynt yn cyfri (3)
11. Dafydd a ddeil am dro i dalu'r pwyth (6)
12. Roedd y pwt o gam a ffwndrodd arno yn ddigon iddo syrthio yn ôl i afael y clefyd (8)
14. Trydlith yr hen fam newidiel (7)
16. Mae hi'n bosib i'r gwychder hwn olygu trahaustra hefyd (7)
20. Trefnu i fynd ag e er mwyn iddo ddatgan eto (8)
23. Tref arbennig y Cymreigyddion o 1833 hyd 1854 (1,5)
24. Tâl am waith (3)
25. Chwyfai â'i bicell (8)
26. Caniad ffôn i weinidog? (6)
27. Nofel hunangofiannus CP (2,3,3,5)

***Cystadleuaeth rhif 119***

Cynigir tocyn llyfr Cymraeg am £5 fel arfer. Eich enw a'ch cyfeiriad ar ymyl y croesair i gyrraedd Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed, Caerdydd erbyn 23 Mai.

***Cystadleuaeth a datrysiad rhif 118***

Derbyniwyd 17, a 15 ohonynt yn gywir. Yr ymgais a ddaeth o'r het oedd eiddo Mrs Huana Simpson, Is-y-coed Fach ger y Bontfaen. Enwau'r datryswyr cywir eraill oedd Hywel Jones, Cathays; John G Breese, Glanyrafon; Gwenda Hopkins, Llanisien; Rhian Williams, Gery-Llyn; Mair Tysul Jones, yr Eglwys Newydd; Sylvia Evans, Cathays; Michael Francis, Casnewydd; Marged Davies, Llandaf; E Prytherch, Cyncoed; Marfudd Davies, Aberaeron; Megan Wyn Jones, Bangor; Guto Rhys, y Rhath; Dilys Gunston, Cyncoed; Bryn Jones, Llangynwr.




**GWERSI CERDDORIAETH**

**Mae gan Mrs Catherine Phillips, ARCM, AGSM Ysgol Cerdd a Drama Guildhall Llundain, le ar gyfer myfyrwyr piano a chanu. Aelod o'r ISM.**

**Ffôn 0222 753641**

**LYNN JONES**

Buddsoddiadau
Yswiriant Bywyd
Pensiynau

Aelod o FIMBRA

30 Highfields, Llandaf
Caerdydd CF5 2QB
Ffôn 0222 562816


## SÊR MIS MAI



EIRY PALFREY

### ARIES

Byddwch yn ofalus wrth deithio, fe allai'ch byrbwylledd achosi damwain. Mae eich uchelgais braidd yn afreal ar hyn o bryd. Mae hi'n iawn i anelu at y sêr, ond mae'n rhaid cael seiliau ymarferol i'ch breuddwydion. Mi ddylech edrych ar eich gorau nawr i ddenu sylw gwrthrych eich serch.

### TAURUS

Os ydych am lwyddo bydd raid i chi oresgyn eich swildod – a'ch styfnigrwydd a chymysgu mwy yn gymdeithasol. Gall camddealltwriaeth tua diwedd y mis arwain at golledion os na fyddwch chi'n ofalus. Gwnewch yn siwr na fydd eich agwedd or-ddelfrydol yn arwain i ffolineb.

### GEMINI

Peidiwch â neidio i'r casgliad anghywir nawr. Efallai y bydd cyfaill – os cyfaill hefyd – yn eich twyllo yn ystod y mis. Mi fyddech yn ddoeth i ollwng y gyfeillgarwch. Rydych ar drothwy pennod newydd yn eich gwaith, nawr yw'r amser i gynllunio a gosod seiliau cadarn.

### CANSER

Os am ddatrys dirgelwch fu'n eich poeni ers tro bydd raid i chi ofyn cwestiynau treiddgar pwrpasol. Efallai y bydd rhywun agos yn eich gadael i lawr, ac mae'n bosib y byddwch chi a'ch cymar yn ymwahanu am gyfnod. Mae diwedd y mis yn amser ardderchog i brynu neu werthu eiddo.

### LEO

Mae'n eitha posib y byddwch yn teimlo'n weddol isel y mis Mai hwn oherwydd eich bod wedi gor-weithio. Os oes gennych ormod o gyfrifoldeb rhannwch y baich, nid chi yw'r unig berson abl yn y byd, a chymrwch mwy o amser i orffwys ac ymlacio.

### VIRGO

Fe allech fod yn llawer mwy llwyddiannus yn eich gwaith oni bai bod ambell un o'ch cydweithwyr yn mynnu sefyll yn eich ffordd. Gwnewch ymdrech i ddarganfod beth sy'n digwydd o dan yr wyneb, ac mi fydd bywyd yn llawer mwy llewyrchus. Efallai y bydd camddealltwriaeth yn codi rhyngoch chi a'ch cymar.

### LIBRA

Peidiwch â neidio i'r casgliad anghywir gyda'ch cymar neu mi fyddwch yn creu camddealltwriaeth fydd yn anodd iawn i'w gywiro. Gwnewch yn siŵr o'r ffeithiau i gyd yn gyntaf. Efallai y byddai'n ddoeth trafod eich problem gyda chyfaill y tu allan i'r sefyllfa cyn cymryd cam ffôl.

### SGORPIO

Mae lwch o'ch ochr chi nawr yn enwedig yn y gwaith, ond cymrwch ofal wrth deithio, a pheidiwch â gorfwyta na gor-yfed os ydych yn parchu'ch iechyd. Fe allai camddealltwriaeth gyda'ch cydweithwyr achosi pryder i chi. Mi fyddwch chi'n teimlo'n iachach o lawer erbyn diwedd y mis, ac yn llawn ynni.

### SAGGITAURUS

Mae hwn yn fis ardderchog i chi ym mhob agwedd o'ch bywyd, er y bydd tuedd ynddoch i fwynhau yn lle ymroi o'ch gwaith. Os ydych yn ddoeth mi fyddwch yn defnyddio'r cyfnod i weithio'n galed a chynllunio'ch bywyd – yna mi fedrwch ymlacio gan wybod bod yr olwynion i gyd yn troi'n llyfn.

### CAPRICORN

Efallai y byddwch yn teimlo'n isel ddechrau'r mis, ond erbyn y 15fed fydd dim dal nôl arnoch chi, ac mi fyddwch yn llawn syniadau creadigol gyda'r ynni a'r ymroddiad i'w gwireddu. Efallai bydd rhiant neu aelod agos o'ch teulu yn eich twyllo mewn rhyw ffordd.

### AQUARIUS

Peidiwch â bod mor styfnig! Fe gewch lawer mwy allan o fywyd trwy gyfaddawdu. A pheidiwch â choelio'r hyn mae pawb yn ei ddweud wrthoch chwaith! Fe all rhamant wneud i chi golli'ch pen y mis Mai hwn – byddwch yn ddoeth, rhag i chi ddifaru.

### PISCES

Peidiwch â rhoi benthyg arian i neb ar hyn o bryd, mae'n eitha tebyg na welwch chi 'run ddime goch ohono byth eto. Mae llawer o dwyll ariannol o'ch cwmpas ar hyn o bryd, felly cymrwch ofal. Bydd gofyn i chi roi cyngor ynglyn â phlant ddiwedd y mis.

# y Calendar

**1 - 18 MAI**
Fern Hill gan Dylan Thomas. Theatr y Sherman

**6 MAI - 30 MEHEFIN**
Columbus – y Methiant Buddugoliaethus
Arddangosfa am 500 mlwyddiant darganfod America
Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru

**8 MAI**
Cymdeithas Golff y Ddinas. Tlws Hugh James Jones a Jenkins. Cwrs Ashburnham, Porth Tywyn. Cost £24 neu £19 Manylion gan Dafydd Hampson Jones 394021 neu 553500 a Ceri Preece 224871 neu 693283

**9 MAI**
Cymdeithas Rieni Ysgol Pencae. Noson Flasu Gwin Anarferol. Gyda Bonc a Gramogaswnwyr Gwesty'r Diplomat, 8.30pm. Tocynnau £6

Clwb Ifor Bach. Ex o Lydaw

**10 MAI**
Seiniau'r Sul: Band St Albans, Caerdydd
Amgueddfa Werin Cymru

**11 MAI**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. Merlod a'r Cobiau Cymreig. Dr E Glynne Davies. Clwb Ifor Bach

Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd. Kynric Lewis

Merched y Wawr, Caerdydd. Gwyneth a Hywel Jeffreys

**12 MAI**
Cymdeithas Carnhuanawc. Cyfarfod blynyddol a thorwm agored. Clwb Ifor Bach. Manylion gan Alan Jobbins 623275

**14 MAI**
Cylch Meithrin Treganna. Noson Drydanol gyda Caryl Parry Jones, Delwyn Siôn, Huw Chiswell MG a'r Mijets, a Roy Gravel. Y Clwb Trydan Tocynnau £2.50. Ffoniwch: 374831

**15 MAI**
Jiwbilî Canolfan yr Urdd. Noson Lawen gan Gwmni Dawns Caerdydd. Gwesty'r Astoria. 7.30pm

Cymrodorion Caerdydd. Y Wladfa

**17 MAI**
Seiniau'r Sul: Dawnswyr Nantgarw
Amgueddfa Werin Cymru

**18 - 23 MAI**
Yr Ŵyl Theatr Genedlaethol i Blant Cymru
Theatr y Sherman

**20 MAI**
Clwb Corn Yinlaen

**24 MAI**
Seiniau'r Sul: Sirial Millions. Amgueddfa Werin Cymru

**25 - 29 MAI**
Cwrs Gwyddelog Cairde Cymru yn An Spidéal, Connemara Cost £135. Manylion gan Richard Lewis, 38 Inverness Place y Rhath. Ffôn 390980 neu 470803

**27 MAI**
Cylch Cinio Cymraeg y Barri a'r Fro. Cyfarfod Cyffredinol

**30 MAI**
Clwb Ifor Bach. Byd Newydd a Byd Arall

**31 MAI**
Seiniau'r Sul: y grŵp gwerin Calan
Amgueddfa Werin Cymru

**3 MEHEFIN**
Merched y Wawr Radur

**13 MEHEFIN**
Clwb Ifor Bach. Bwchadanas

**17 MEHEFIN**
Clwb Corn Yinlaen

**24 MEHEFIN**
Cylch Cinio Cymraeg y Barri a'r Fro. Alun Daniel

*Manylion y Calendar at Lynn Jones, Ffôn 562816*

## GAIR O'R GAIMAN

# O NA FYDDAI'N HAF O HYD!



• Gwilym Roberts yn Mhatagonia

**MAE'R HAF** wedi mynd a'r wlad yn lifrau'r hydref, ond mae hi dal yn braf iawn. Ond anwadal yw tywydd Patagonia. Dri mis yn ôl, am bump o'r gloch y bore, cafwyd glaw anhygoel a ddeffrodd pawb drwy'r fro. Parodd am tua hanner awr, ond roedd yn ddigon i droi strydoedd y Gaiman yn afonydd o ddŵr, llaid, graean a cherrig mawr a mân. Bu'r cyngor yn clirio'r rhan fwyaf o'r llanast, ond mae digon ar ôl.

Y diwrnod enillodd Cymru yn erbyn yr Alban cynhaliwyd swper mawreddog yn Nhrelew i ddathlu canmlwyddiant sefydlu Cymdeithas Dewi Sant. Daeth tua 200 o bobol i'r dathliad, lle dawnsiodd grŵp o ieuenctid Trelew ddwy ddawns Gymreig, a galwais i un ddawns i bawb ac arwain y canu cynulleidfaol.

Yn ystod mis Mawrth bu criw teledu o Gaerdydd allan yma, gyda Mici Plwm yn cyrraedd yn eu sgil. Daeth i edrych am fodryb iddo oedd yn byw yn Nhrelew. Doedd y ddau erioed wedi cyfarfod, a sgrifennodd Mici ddim ati cyn dod. Gellwch ddychmygu ei syndod hi pan agorodd ei drws un prynhawn, a gweld y stwcyn roli poli o ddyn yn sefyll yno a gwên lydan ar ei wyneb yn cyhoeddi "Helo, dan ni'n perthyn!".

Bues i â'r criw ffilmio am bryd o fwyd mewn restaurant yng nghanol Trelew. Wrth gyrraedd sylwais ar wraig ifanc hardd mewn ffrog ddu yn eistedd gyda'i gŵr wrth y bwrdd agosa.

Yn ystod y pryd cerddodd y gweinydd i mewn â chacen penblwydd a'i gosod ar y bwrdd o'i blaen. Dechreuodd pawb yn y stafell ganu Penblwydd Hapus – mewn Sbaeneg. Ar amrantiad penderfynais ledio'r un gân yn Gymraeg. Canom nerth ein penau, a chawsom gymeradwyaeth frwd. Daeth y wraig ifanc atom a rhoi cusan yr un i ni ar y foch. Dros wydraid o siampaen, datgelodd y gweinydd mai'r wraig ifanc hardd oedd gwraig Llywodraethwr Talaith Chubut!

Dwi wedi bod ym Mhatagonia ers wyth mis bellach, ac wedi gwneud llawer o gyfeillion newydd. Anodd fydd canu'n iach ar ddiwedd Gorffennaf, ond erys atgofion melys am byth ar y cof, ac yn sicr bydd yn rhaid dychwelyd rywbryd.

*• Diolch i Gwilym am ei gyfraniad i gronfa Dinesydd 2000*

## GWENLYN PARRY

### CARTREF I GOFEB NEWYDD

**COMISIYNWYD** cofeb gan S4C, BBC Cymru, HTV Cymru, TAC, yr Academi Gymreig a Ffilm Cymru er mwyn cofio Gwenlyn Parry.

Mewn noson deyrnged ym mis Mawrth yn y Coleg Cerdd a Drama, cyflwynwyd detholiad o'i ddramau.

Cynhaliwyd awr a hanner drwy gyfres o olygfeydd – gan gynnwys Saer Doliau, y Tŵr, y Ffin, Tŷ ar y Tywod, a Panto – a oedd yn dangos gwewyr meddwl y dramodydd.

Bwriedir gosod y gofeb i Gwenlyn yn y Theatr Newydd. Dylech anfon eich cyfraniad i gronfa Cofio Gwenlyn, dan ofal Geraint Stanley Jones yn S4C.

*• Penodwyd Harri Pritchard Jones yn Gadeirydd Adran Gymraeg yr Academi Gymreig i olynu Gwenlyn Parry.*

## DYSGWYR

### ADOLYGU I'R HAF

**CYCHWYNNODD** cyrsiau gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion i helpu dysgwyr sydd wedi eu cofrestru i sefyll arholiadau Defnyddio'r Gymraeg neu Dystysgrif y Brifysgol yn yr haf.

Pwrpas y cyrsiau yw cynorthwyo myfyrwyr i adolygu ar gyfer y cyrsiau. Am fwy o fanylion, cysylltwch â Steffan Webb ar 390980.

WELSH PROMS 92
Cyfarwyddwr Artistig: Owain Arwel Hughes
16-25 GORFFENNAF
SAITH CYNGERDD
CERDD
GANOL HAF!
Pump o Brif Gerddorfeydd Prydain
Unawdwyr o Fri
Rhaglenni Cyffrous
Perfformiadau Cyntaf
Neuadd Dewi Sant
Caerdydd
SWYDDFA DOCYNNAU
☎ (0222) 371236/235900
Ffoniwch 0222 342611 est 232 i gael copi o daflen Welsh Proms '92
DINAS CAERDYDD CITY OF CARDIFF

# Y LLUN AR Y SGRIN



YN DARLLEDU'N FYW O EISTEDDFOD YR URDD BOB DYDD

S4C

# CÔR Y BYD

## PARC YR ARFAU CAERDYDD SADWRN Y SULGWYN 23 MAI 1992

### HYD AT 10,000 O LEISIAU GYDA

| DAME GWYNETH JONES | DENNIS O'NEILL | OWAIN ARWEL HUGHES |
|---|---|---|
| Soprano | Tenor | Arweinydd |

Mewn cydweithrediad â S4C

TOCYNNAU £17.50

FFONIWCH (0222) 691999 NEU (0222) 230130

GŴYL GERDDI CYMRU



# DIGWYDDIAD *y* DEGAWD

Bydd Gŵyl Gerddi Cymru yn ddathliad pum mis o fywyd newydd, twf a hwyl, gydag un miliwn a hanner o goed, llwyni a phlanhigion fydd yn dod â lleoliad prydferth 142 o erwau y cwm yn fyw o liw a chyffro.

Bydd rhywbeth at ddant pawb yng Ngŵyl Gerddi Cymru, o theatr stryd, opera a chwaraeon i sioeau garddwriaethol gwych. Byddwch hefyd yn gallu dewis o amrywiaeth eang o gyfleoedd rhagorol i fwyta ac i siopa ar y safle.

Gwnewch yn siwr y byddwch yno.

Am fwy o wybodaeth, cysyllter â :

**Gŵyl Gerddi Cymru Cyfyngedig,**
**Blwch Post 14, Glynebwy,**
**Gwent, NP3 6XZ.**
**Rhif ffôn (0495) 305545**

Garden Festival Wales
Gŵyl Gerddi Cymru
Ebbw Vale 92

© 1991 Garden Festival Wales Limited

MAI 1af *i* HYDREF 4ydd 1992













# Deugain awr o raglenni o'r Eisteddfod

HTV CYMRU

Dewch i'n gweld yn Rhuthun